

# MUSIC FEST ABERYSTWYTH 2025

26 GORFFENNAF - 2 AWST

## Llyfryn yr Wŷl

CANOLFAN Y CELFYDDYDAU
ABERYSTWYTH ARTS CENTRE

MUSICFEST
Aberystwyth
musicfestaberystwyth.org

# DIOLCH I'N CEFNOGWYR

CANOLFAN Y CELFYDDYDAU ABERYSTWYTH ARTS CENTRE

PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales

Cyngor Tref Aberystwyth Town Council

AMGUEDDFA CEREDIGION MUSEUM

TŶ CERDD hyrwyddo cerddoriaeth Cymru *promoting the music of Wales*

Colwinston CHARITABLE TRUST

CYNNAL Y CARDI Creu Cymunedau Cynaliadwy Creating Sustainable Communities

Mae Musicfest yn cynnig cyfle anhygoel i fyfyrwyr elwa o'r ŵyl. I helpu gyda'r ffioedd dysgu cofrestrwyd elusen yn enw 'Friends of Musicfest, Aberystwyth' yn 2007. Mae'r elusen yn codi arian ar gyfer bwrsariaethau, gan wahanol ymddiriedolaethau a sefydliadau, a gyda chymorth llawer o unigolion hael. Mae'r cronfeydd hyn yn cynorthwyo myfyrwyr, gan gynnwys llawer o bobl ifanc lleol, na fyddent fel arall yn gallu mynychu'r digwyddiad sydd mor fanteisiol i'w gwybodaeth gerddorol ac mewn llawer o achosion eu gyrfaoedd yn y dyfodol.

Os hoffech chi helpu drwy ddod yn 'Ffrind' cysylltwch â Joan Rowlands ar:
joanrowlands777@gmail.com
07964159401

# CROESO

Bydd Gŵyl Gerdd Aberystwyth 2025 yn cynnig gweledigaeth o'r Gymru ddelfrydol, drwy gerddoriaeth. Mae *Wythnos yng Nghymru Fydd*, nofel arloesol Islwyn Ffowc Elis o 1957, yn ein gwahodd i ddychmygu'r Gymru yr ydym am ei gweld. Yng nghanmlwyddiant ei eni, ac wedi'i ysbrydoli gan ei themâu allweddol, byddwn yn dod â chymdeithas yn fyw lle mae cydraddoldeb, yr iaith Gymraeg, a'n perthynas â'r byd o'n cwmpas, yn cael eu dathlu a'u cwestiynu, gan greu profiad unigryw o Gymreictod, drwy gerddoriaeth a geiriau.

Mae'n fraint i ni groesawu i Aberystwyth yr arwr opera Syr Bryn Terfel, ochr yn ochr ag Archdderwydd Cymru, Mererid Hopwood, a myfyrwyr o Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, yng nghwmni Zoë Smith, mewn cyngerdd dathlu i nodi 150 mlynedd ers sefydlu'r Adran Astudiaethau Cymraeg a Cheltaidd Prifysgol Aberystwyth. Bydd y cyngerdd yn cynnwys cerddoriaeth gan gyfansoddwr caneuon celf mwyaf blaenllaw Cymru, Meirion Williams, a geiriau gan rai o feirdd enwocaf Cymru, ynghyd â cherddoriaeth a barddoniaeth sy'n olrhain gwaddol Williams ac yn dathlu ei ddylanwad ar y cenedlaethau nesaf o gyfansoddwyr caneuon Cymru.

Bydd y Cyfarwyddwr Artistig, Iwan Teifion Davies, yn arwain cerddorfa Opera Cenedlaethol Cymru mewn perfformiad cyngerdd prin o opera gomig Arwel Hughes a Saunders Lewis, *Serch yw'r Doctor*. Dim ond unwaith y clywyd y rhan bwysig hon o'n treftadaeth gerddorol, gan ddau o ffigurau creadigol blaenllaw'r ugeinfed ganrif, ers ei pherfformiad cyntaf yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym 1960.

Mae amrywiaeth eang o ddigwyddiadau eraill, gan gynnwys perfformiadau gan Sinfonia Cymru ochr yn ochr â N'famady Kouyaté, yn cyfuno rhythmau a melodïau Gorllewin Affrica â synau clasurol a gwerin; Cerddorfa Siambr Cymru mewn rhaglen sy'n cynnwys 40fed Symffoni Mozart; Triawd Art Deco, dan arweiniad y pianydd a'r cyfansoddwr Iain Farrington, yn perfformio repertoire clasurol wedi'i ail-ddehongli fel safonau jazz; Pocket Sinfonia gyda'u fersiynau siambr arobryn o weithiau symffonig; 'Pan Ddwynodd Hitler y Gerddoriaeth', archwiliad o gyfansoddwyr ffoaduriaid benywaidd, gan ganolbwyntio ar Julia Kerr, y feiolinydd Sara Trickey yn 'ail-greu' datganiad Jelly d'Aranyi; Jane Austen 250, digwyddiad gyda cherddoriaeth a geiriau wedi'u curadu gan Andrew Matthews-Owen – a llawer mwy.

Mae rhywbeth i bawb ym Musicfest eleni. Gobeithiwn y byddwch chi'n mwynhau.

# MUSICFESTXtra

## Digwyddiadau cyn yr Ŵyl

27/06/2025 Eglwys Holy Trinity 7.30pm
**Guy Johnson (cello) and Tom Poster (piano)**
Friends Fundraiser

**03/07/2025** Eglwys Holy Trinity 7.30pm
**Côr ABC**

**09/07/2025** Eglwys Holy Trinity 7.00pm
**Schubert Octet**

**23/07/2025** Eglwys Holy Trinity 7.00pm
**Mellow Cellos & Ffrindiau**

**24/07/2025** Canolfan y Celfyddydau 1.00pm
**Amazing Piano**

**25/07/2025** Canolfan y Celfyddydau 7.30pm
**Peter Stevenson a Ffrindiau**

**25/07/2025** Ffynnon Garon 7.30pm
**Angharad Davies & Friends of the Well**

Ewch i'n gwefan i weld mwy o ddigwyddiadau wrth iddynt gael eu hychwanegu
www.musicfestaberystwyth.org

SCAN ME

# CIPOLWG AR YR ŴYL

## Dydd Sadwrn 26 Gorffennaf

| | |
|---|---|
| 8pm | Sinfonia Cymru efo N'famady Kouyaté |

## Dydd Sul 27 Gorffennaf

| | |
|---|---|
| 4pm | Y Gerddorfa Siambr Gymreig |
| 8pm | Art Deco Trio |

## Dydd Llun 28 Gorffennaf

| | |
|---|---|
| 1pm | When Hitler Stole the Music |
| 6pm | Cyngerdd Myfyrwyr Llinynau |
| 8pm | Bryn Terfel: An Evening of Song |

## Dydd Mawrth 29 Gorffennaf

| | |
|---|---|
| 1pm | Raphael James, piano |
| 6.30pm | Cyngerdd Myfyrwyr Llinynau |
| 8pm | Pocket Sinfonia |
| 10pm | Late Night Piano |

## Dydd Mercher 30 Gorffennaf

| | |
|---|---|
| 1pm | Pedwarawd Llinynnol Myfyrwyr o Norwy |
| 6.30pm | Cyngerdd Myfyrwyr Llinynau |
| 8pm | Jane Austen 250 |

## Dydd Iau 31 Gorffennaf

| | |
|---|---|
| 1pm | Aurelija Stasiulytė |
| 6.30pm | Cyngerdd Myfyrwyr Llinynau |
| 8pm | Jelly d'Aranyi and Aberystwyth |

## Dydd Gwener 1 Awst

| | |
|---|---|
| 1pm | Beethoven's Vienna |
| 3.30pm | Afon Film + Q&A |
| 6.30pm | Cyngerdd Myfyrwyr Llinynau |
| 7pm | Serch yw'r Doctor |

## Dydd Sadwrn 2 Awst

| | |
|---|---|
| 9am - 5pm | Cyngherddau Myfyrwyr Ysgol Haf |
| 5pm | Afon Ffilm + C&A |
| 8pm | Y Diweddglo - Pumawd y Tiwtoriaid |

SCAN ME

## Dydd Sadwrn 26 Gorffennaf

8pm  Neuadd Fawr   £20 (£18)

### Sinfonia Cymru with N’famady Kouyaté



Enillydd Cystadleuaeth Talent Newydd Glastonbury 2023, mae N'famady Kouyaté yn ganwr ac yn aml-offerynnwr a anwyd yn Guinea, sydd bellach yn byw yng Nghaerdydd. Dewch i brofi trefniannau newydd o gerddoriaeth N'famady, ei lais anhygoel a'i sgiliau chwarae ar y balafon ochr yn ochr â phedwarawd llinynnol ac offerynnau taro Sinfonia Cymru. Disgwyliwch gymysgedd deinamig o arddulliau rhyngwladol, gan gyfuno rhythmau ac alawon Gorllewin Affrica gyda synau clasurol a gwerin.

## Dydd Sul 27 Gorffennaf

4pm  Neuadd Fawr  £20 (£18)

### Y Gerddorfa Siambr Gymreig

Ers ei sefydlu ym 1986 mae wedi perfformio gyda llawer o unawdwyr gorau’r byd ac wedi ymgymryd â nifer o deithiau cyngerdd Ewropeaidd yn ogystal â pherfformio ledled y DU. Am flynyddoedd lawer bu’n gerddorfa siambr breswyl yng Nghyfres Cyngherddau Rhyngwladol Abertawe lle bu ei pholisi arloesol o roi ail berfformiadau o weithiau gan gyfansoddwyr Cymreig yn hynod lwyddiannus. Mae wedi recordio nifer helaeth o raglenni teledu gan gynnwys cyfres opera arobryn Gŵyl Ffilm Efrog Newydd.



**Coleridge Taylor** 4 Novelletten
**Debussy** Danses Sacrée et Profane
soloist Alis Huws
**Gershwin** Lullaby
**Mozart** Symphony no.40

8pm  Neuadd Fawr  £20 (£18)

### Art Deco Trio

Mae’r Triawd Art Deco yn perfformio cerddoriaeth glasurol a phoblogaidd gyda dylanwad jas, gan gyfuno deunyddiau a gweadau’r repertoire clasurol gyda rhythmau a harmonïau jas. Fel y steil Art Deco, mae eu cerddoriaeth yn cymysgu ceinder a llinellau glân gydag hwyliogrwydd a lliwiau beiddgar. Mae’r triawd yn cynnwys tri chyfaill a chydweithiwr, sydd wedi perfformio gyda’i gilydd mewn ensembles niferus mewn llawer o leoliadau blaenllaw’r DU.



Peter Sparks – clarinet
Kyle Horch – sacsoffon
Iain Farrington – piano/trefnydd

# Dydd Llun 28 Gorffennaf

1pm Neuadd Fawr £10

## When Hitler Stole the Music

### Bywyd a chaneuon Julia Kerr



Julia Kerr (1898 -1965) - cyfansoddwraig, gwraig yr awdur Alfred Kerr, a mam yr awdur plant clodwiw Judith Kerr a ysgrifennodd The Tiger Who Came to Tea, y gyfres Mog a When Hitler Stole Pink Rabbit, ei nofel yn seiliedig ar hanes y teulu yn ffoi o'r Almaen. 'Roedd Kerr newydd gwblhau ei hail opera, Der Chronoplan, ym 1933, pan orfodwyd y teulu i ffoi, a bu'r llawysgrif yn teithio gyda nhw, er na chafodd yr opera erioed ei llwyfannu. Gydag adfywiad diddordeb mewn entartete musik yn ddiweddar ('cerddoriaeth ddirywiedig' fel y'i gelwir gan y Natsïaid), bydd y darn yn cael ei berfformio am y tro cyntaf yn y byd yn 2026.

Bydd y Dr Andrea Hammel, o Ganolfan Symud Pobl Prifysgol Aberystwyth, a'r Athro Christian Leitmeir o Gyfadran Gerddoriaeth Rhydychen, yn trafod profiad Kerr o alltudiaeth fel artist creadigol, ynghyd â pherfformiadau o'i chaneuon, yng nghwmni'r Cyfarwyddwr Artistig, Iwan Davies.

6.30pm Neuadd Fawr Am ddim

## Cyngerdd Myfyrwyr Llinynau

8pm Neuadd Fawr £25

## Bryn Terfel: Pan ddaw'r nos: An evening of song



Bydd yr arwr operatig Syr Bryn Terfel ac Archdderwydd Cymru, Mererid Hopwood, yn ymuno â chantorion ifanc blaengar o Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru gyda'r pianydd Zoe Smith yn cyfeilio, mewn cyngerdd i ddathlu 150 mlynedd ers sefydlu Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd ym Mhrifysgol Aberystwyth ar Nos Lun, Gorffennaf 28ain. Mewn cydweithrediad â'r CBCDC, bydd y cyngerdd yn cynnwys cerddoriaeth gan gyfansoddwr caneuon celf mwyaf blaenllaw Cymru, Meirion Williams, a geiriau gan rai o feirdd mwyaf adnabyddus Cymru ynghyd â cherddoriaeth a barddoniaeth sy'n olrhain cyfraniad Williams ac yn dathlu'r dylanwad a gafodd ar y cenedlaethau nesaf o gyfansoddwyr Cymreig.

# Dydd Mawrth 29 Gorffennaf

1pm Neuadd fawr £10 (£9)

## Raphael James

Mae Raphael yn 18 oed ac yn dod o Aberteifi yng Ngorllewin Cymru. Yn ddiweddar cwblhaodd lefel A mewn Mathemateg, Ffiseg, a Chemeg yn Ysgol Uwchradd Aberteifi. Ym mis Medi bydd yn dechrau ar ei astudiaethau piano israddedig gyda'r Athro Gareth Owen yn Ysgol Gerdd a Drama'r Guildhall yn Llundain.



Rhaglen:
Beethoven: Piano Sonata no. 18 in E-flat major, Op.31 no.3 (The Hunt)
Edvard Grieg: Piano Sonata in E minor, Op.7
Morfydd Owen: Talyllyn
The Passing of Branwen
Rachmaninoff: Études-tableaux ;
Op.33 no.3 in C minor
Op.39 no.9 in D major
Stephen Hough: Fanfare Toccata

6.30pm Neuadd Fawr Am ddim

## Cyngerdd Myfyrwyr Llinynau

8pm Neuadd Fawr £20 (£18)

## Pocket Sinfonia



Mae Pocket Sinfonia yn ailddehongli campweithiau cerddorfaol gyda digymhellrwydd ac agosatrwydd grŵp siambr.
Gan ddefnyddio offerynnau modern a chyfnod, ffurfiwyd Pocket Sinfonia i ail-greu awyrgylch partïon ystafell fyw o'r 19eg Ganrif, lle gellid cymhwyso agosatrwydd perfformiadau cerddoriaeth siambr i ddarnau ar raddfa gerddorfaol. Gwneir hyn yn bosibl trwy wahanol drawsgrifiadau gan gyfansoddwyr y 19eg Ganrif, gan gynnwys Hummel a Clementi. Ers hynny mae Pocket Sinfonia wedi gwneud eu trefniannau eu hunain, gan gymhwyso digymhellrwydd ac egni i greadigaethau nad ydynt yn unig yn fersiynau llai o ddarnau mawrion, ond yn newydd ac yn artistig yn eu rhinwedd eu hunain.

Prokofiev: Romeo and Juliet
Fanny Mendelssohn: Overture in C major
Felix Mendelssohn : A Midsummer Night’s Dream

# Dydd Mercher 30 Gorffennaf

1pm Neuadd Fawr £10 (£9)



## Pedwarawd Llinynnol Myfyrwyr o Norwy

Bydd pedwarawd o chwaraewyr ifanc talentog o Norwy sy'n fyfyrwyr yn Ysgol Haf Musicfest yn arddangos eu doniau.

6.30pm Neuadd Fawr Am ddim

## Cyngerdd Myfyrwyr Llinynau

8pm Neuadd Fawr £20 (£18)

## Jane Austen 250





Cariad, Bywyd a Chwaeroliaeth
*"She was the sun of my life, the gilder of every pleasure, the soother of every sorrow, I had not a thought concealed from her, and it is as if I had lost a part of myself."* — Cassandra Austen

Mae Jane Austen, yr arsyllwraig fwyaf craff honno ar yr ysbryd dynol, yn cael ei charu gennym trwy ei chymeriadau dihafal.
Mwynhaodd Jane a'i chwaer annwyl Cassandra ohebiaeth fywiog, yn ymwneud â digwyddiadau bywyd a'u hemosiynau cysylltiedig dros nifer o flynyddoedd. Dinistriodd Cassandra lawer o'r llythyrau hyn, gan adael i ni ddim ond darnau i adeiladu portread o Jane.
Yn y datganiad hwn o eiriau gan Jane Austen, wedi'i liwio gan gerddoriaeth yr oedd hi'n ei charu gan gyfansoddwyr yn cynnwys Gluck, Handel, Haydn, Schubert; caneuon poblogaidd y cyfnod, a detholiadau o isgerddoriaeth Jonathan Dove o'r llythyrau, *My Beloved Cassandra*, 'rydym yn archwilio ac yn dathlu bywyd rhyfeddol.

Nina Wadia, actor
Claire Booth, soprano,
Andrew Matthews-Owen, piano,

# Dydd Iau 31 Gorffennaf

1pm Neuadd Fawr £10 (£9)

## Aurelija Stasiulytė



Fel rhan o'n Cyfres Cyngherddau Artistiaid Ifanc 'rydym yn falch i groesawu Aurelija Stasiulytė, y meso-soprano o Lithwania a fydd yn perfformio *Sea Pictures* gan Elgar a chylch o ganeuon Lithwanaidd.
Jurgis Karnavičius – *Six Romances* (P.B. Shelley):
*Ozymandias*
*A Dirge*
*Time Long Past*
*The Waining Moon*
*To Emilia Viviani*
*To The Moon*

6.30pm Neuadd Fawr Am ddim

## Cyngerdd Myfyrwyr Llinynau

8pm Neuadd Fawr £20 (£18)

## Jelly d'Aranyi and Aberystwyth



Ysbrydolwyd y cyngerdd hwn gan y feiolinydd Hwngaraidd Jelly d'Aranyi a oedd yn ffefryn mawr gyda chynulleidfaoedd Gregynog ac Aberystwyth o'r 1920au i'r 1950au.
Cyflwynir y cyngerdd gan y feiolinydd Sara Trickey gyda rhagarweiniad gan Rhian Davies.

'Roedd Jelly d'Arányi (1893 - 1966) yn feiolinydd Hwngaraidd, yn or-nith i Joseph Joachim ac yn chwaer i'r feiolinydd Adila Fachiri (1886-1962). Dechreuodd astudio fel pianydd, ond newidiodd i feiolin yn Conservatoire Franz Liszt ym Mwdapest pan dderbyniodd Jenö Hubay hi yn ddisgybl.
Ffurfiodd driawd gyda Pablo Casals, sielo a Frederick Septimus Kelly, piano. Perfformiodd hefyd gyda Béla Bartók, a gyflwynodd ei ddwy sonata ar gyfer feiolin a phiano iddi a berfformiwyd ganddynt yn Llundain ym mis Mawrth 1922 (rhif 1) a mis Mai 1923 (rhif 2).

# Dydd Gwener 1 Awst

1pm Neuadd Fawr £10 (£9)

## Fienna Beethoven: Repertoire Gitâr o'r Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg ar Offeryn Cyfnod

Y Dr Oliver Chandler yn cyflwyno datganiad o gerddoriaeth a gyfansoddwyd gan gitaryddion - cyfoeswyr Beethoven - oedd yn gweithio yn Fienna rhwng 1806 a 1818. Bydd yn perfformio ar offeryn cyfnod, ar fenthyg o Gasgliad Bate yn Rhydychen, a adeiladwyd ym Mharis yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ceir sylwebaeth rhwng y darnau, gan greu fformat 'datganiad darlith'.

Anton Diabelli, *Amusement pour les dames, No. 1*
Anton Diabelli, *Overture for Solo Guitar*
Simon Molitor, *Grand Sonata for Solo Guitar, Op. 7/i*
Wenzel Thomas Matiegka, *Op. 31, No. 1/i*
Mauro Giuliani, *Op. 15/i*



6.30pm Neuadd Fawr Am ddim

## Cyngerdd Myfyrwyr Llinynau

8pm Neuadd Fawr £25

## Cerddorfa WNO
## Serch yw’r Doctor

Perfformiad unwaith-mewn-oes o Serch yw'r Doctor,campwaith digri Arwel Hughes a Saunders Lewis, wedi'i berfformio gan gerddorfa Opera Cenedlaethol Cymru, wedi'i arwain gan Gyfarwyddwr Artistig Musicfest, Iwan Davies, gyda'r unawdwyr blaenllaw Fflur Wyn, Robert Lewis, Paul Carey Jones, Steffan Lloyd Owen a Sioned Gwen Davies.
Perfformiwyd y gwaith yn gyntaf yn Eisteddfod Genedlaethol 1960, yn union 65 mlynedd i ddydd y perfformiad hwn. Cefnogir y digwyddiad gan Gronfa Goffa Saunders Lewis.



# Dydd Sadwrn 2 Awst

9.30am (gweler y wefan am amseroedd) Neuadd Fawr Am ddim

## Cyngherddau Myfyrwyr Ysgol Haf

5pm Sinema Am ddim

## Afon

### Ffilm + C&A

Taith stop-symud yn dilyn hynt Afon Rheidol



8pm Neuadd Fawr £20 (£18)

## Y Diweddglo - Pumawd y Tiwtoriaid

Mae ein tiwtoriaid adnabyddus yn dod at ei gilydd i berfformio rhaglen ddisglair gyda syrpreis ychwanegol.

Feiolin: Sigyn Fossnes
Feiolin: Gabriela Jones
Fiola: Rebecca Chambers
Sielo: Kari Ravnan
Piano: Oliver Cuttriss

**Rhaglen**
Pumawd piano Schumann: op 44

Pumawd piano Shostakovich: op 57



